

## Llanfairfechan i Warchodfa Natur Morfa Madryn

## Llanfairfechan to Morfa Madryn nature reserve

### Gwybodaeth am y Llwybr:

Llwybr llinol yw hwn ar hyd arfordir Gogledd Cymru gyda golygfeydd o'r môr rhwng y llwybr ac Ynys Môn i'r gogledd a'r mynyddoedd i'r de.

Mae'n bosibl cael mynediad hefyd i Warchodfa Natur Morfa Madryn, sy'n cynnig cyfleoedd ardderchog i wylïo adar.

Ar ddechrau'r llwybr, gellir gwneud cylch o gwmpas y pwll cychod (llwybr cylchol rhif 1). Mae arwyneb y llwybr fan hyn o amgylch y pwll cychod yn wastad ac wedi'i darmacio. Tua diwedd y llwybr ger y bont droed, mae llwybr cylchol yn mynd â chi'n agosach at yr arfordir (llwybr cylchol 2). Mae'r llwybr fan hyn yn dilyn glaswelltir gwastad sy'n draenio'n dda.

### Route Information:

Along the north Wales coast, this is a linear route with views of the sea between the path and Anglesey to the north and the mountains to the south.

You can also access Morfa Madryn Nature Reserve, offering excellent bird watching opportunities.

At the start of the route, one loop can be taken around the Boat Pool (loop 1). The surface of the path here around the boat pool is level and tarmaced. Towards the end of the route near the footbridge a loop takes you closer to the coast (loop 2). The path here follows flat and well drained grassland.

**Dechrau:** Maes parcio promenâd Llanfairfechan.

**Gorffen:** Gwarchodfa Natur Morfa Madryn.

**Pellter:** Main route: 2.5 cilomedr neu 1.5 milltir (yno ac yn ôl).  
Loop 1: 0.5 cilomedr neu 0.25 milltir. Loop 2: 0.5 cilomedr neu 0.25 milltir

**Amser:** Caniatewch 1 i 2 awr.

**Wyneb:** Promenâd ag wyneb da. Ar ôl cerdded tua 1 cilomedr ar y llwybr, yn ardal corstir arfordirol Glan y Môr Elias, mae'r wyneb yn newid yn raeon cywasgedig ac yn dod ychydig yn fwy garw. Mae'r llwybr wedi'i bori'n dda, mae ganddo ddraeniad da a dylai fod yn addas ar gyfer pobl sy'n defnyddio offer symudedd. Unwaith y byddwch yn cyrraedd Gwarchodfa Natur Morfa Madryn, mae'r llwybr yn culhau a cheir rampiau mynediad i dair cuddfan adar.

**Llethrau:** Dim.

**Proffil y llwybr:** Yr uchder uchaf fyddai angen i chi ei ddringo yw tua 1 metr.

**Lled y llwybr:** Mae'r llwybr yn ddigon llydan ar gyfer unrhyw offer symudedd.

**Giât Mochyn:** Weithiau bydd y giât ar agor yn llwyr, ond cynghorir defnyddwyr i gario allwedd Cynllun Allwedd Cenedlaethol (a elwir hefyd yn allwedd RADAR) er mwyn gallu cael mynediad pan fydd wedi'i chloi.

### Gwybodaeth i Ymwelwyr:

Ar gyfer llywio â lloeren defnyddiwch: Maes Parcio Promenâd Llanfairfechan, Llanfairfechan LL33 0DA

**Cludiant Cyhoeddus:** Ceir arhosfan trên ar gais yng ngorsaf Llanfairfechan. Ewch i [www.traveline-cymru.info](http://www.traveline-cymru.info) i gynllunio eich taith.

**Parcio:** Mannau parcio dynodedig i bobl anabl yn y maes parcio yng nghaffi Beach Pavillion.

**Toiledau:** Toiledau hygrych yng nghaffi Beach Pavillion. Ceir toiled cyhoeddus hefyd gyda chyfleusterau i'r anabl.

**Amwynderau eraill:** Mae lluniaeth ar gael ar y promenâd yng nghaffi Beach Pavillion, sy'n hygrych.

Rydym bob amser yn argymhell cario map papur wrth gefn, yn ogystal â defnyddio ap mapio ar eich ffôn os nad ydych yn gyfarwydd â'r rhan hon o Lwybr Arfordir Cymru.

**Start:** Llanfairfechan promenade car park.

**Finish:** Morfa Madryn Nature Reserve.

**Distance:** Main route: 2.5 kilometres or 1.5 miles (there and back). Loop 1: 0.5 kilometre or 0.25 miles  
Loop 2: 0.5 kilometre or 0.25 miles

**Time:** Allow 1 to 2 hours.

**Surface:** Well surfaced promenade. At approximately 1 kilometre into the route, at Glan y Mor Elias coastal marshland area, the path surface changes into compacted gravel and becomes slightly rougher. The path is well grazed, has good drainage and should be suitable for people using mobility equipment. Once at Morfa Madryn Nature Reserve, the path narrows and there is ramped access to three bird hides.

**Slopes:** None.

**Route profile:** The route profile shows the route elevation in one direction only, from start to finish.

**Path width:** The path is wide enough for all mobility equipment.

**Kissing Gate:** The gate is sometimes fully open, but users are advised to carry a National Key Scheme key (also known as a RADAR key) to enable access when locked.

### Visitor Information:

**For satellite navigation please use:** Llanfairfechan Promenade Car Park, Llanfairfechan LL33 0DA.

**Public Transport:** There is a request train stop at Llanfairfechan station. Please see [www.traveline-cymru.info](http://www.traveline-cymru.info) to plan your journey.


**Parking:** Designated disabled parking bays in the car park at the Beach Pavilion café.

**Toilets:** Accessible toilets at Beach Pavilion café. There is also a public toilet with disabled facilities.


**Other amenities:** Refreshments are available on the promenade at the Beach Pavilion Café, which is accessible.

We always recommend carrying a paper map as a back up to a phone-based mapping app if you're not familiar with this area of the Wales Coast Path.


### Proffil y llwybr/Route Profile



### Llwybr cylchol / Loop 1



### Llwybr cylchol / Loop 2



Datblygwyd y daith gerdded hon mewn partneriaeth ag **Experience Community**, sef Cwmni Buddiannau Cymunedol nid-er-elw sy'n helpu pobl anabl i gael mynediad i'r awyr agored drwy amrywiaeth o weithgareddau cerdded, beicio, cadwraeth a chelfyddydau cynhwysol.

This walk was developed in partnership with **Experience Community** is a not-for-profit Community Interest Company that helps disabled people access the outdoors through a range of inclusive walking, cycling, conservation and arts activities.